COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a dros y rhwydwaith fideo am 10.00 – 12.10 ar 7 Tachwedd 2017

Yn bresennol:

Aelodau: Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr)
William Callaway
Yr Athro Iwan Davies
Gareth Eyres
Gareth Pierce

Archwilwyr: Ian Clarke, PriceWaterhouseCoopers (Archwilwyr allanol)
Carol Warburton, Baldwins (Archwilwyr mewnol)

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Ymddiheuriadau: Dr Rhodri Llwyd Morgan

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso ac ymddiheuriadau	1.1 Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan Dr Haydn Edwards a oedd yn cadeirio'r cyfarfod. 1.2 Nodwyd bod adolygiad o Lywodraethiant y Coleg yn digwydd ar hyn o bryd. 1.3 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Datganodd Gareth Pierce, Prif Weithredwr, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC), ddiddordeb yn y Tystysgrif		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Sgiliau Iaith, a achredwyd gan CBAC.		
3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a Materion yn Codi	3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 16 Mai 2017, fel cofnod cywir. 3.2 <u>Eitem 3.2 – Penodi cyfarwyddwr newydd</u> Nodwyd bod y rôl wedi ei hysbysebu ac y penderfynwyd gohirio penodi. 3.3 <u>Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg</u> Nodwyd y bydd argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 22 Tachwedd 2017. 3.4 <u>Eitem 4 – Cyllideb y Coleg</u> Nodwyd yn sgil adolygiad i Lywodraethiant y Coleg bydd Pwyllgor Cyllid, Adnoddau a Dibenion Cyffredinol yn cael ei sefydlu, lle y trafodir materion cyllid. 3.5 <u>Eitem 6.3 – Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol</u> Cafwyd diweddariad gan Carol Warburton bod yr adroddiad sicrwydd ynghylch trosglwyddo trefniadau cyllido o'r cyngor cyllido Addysg Uwch i Lywodraeth Cymru wedi ei gyflwyno ac nad oedd unrhyw faterion yn codi. 3.6 <u>Eitem 7.2 - Amserlen a phroses cyflwyno cyfrifon blynyddol</u> Yn sgil amwysedd yn y cyfansoddiad cafwyd cyngor cyfreithiol yn nodi nad oes gofyniad cyfansoddiadol o gyflwyno'r cyfrifon blynyddol i'r Llys. 3.7 <u>Eitem 7.3 – Ffurf cyflwyno'r cyfrifon blynyddol</u> Gwelir ffurf newydd cyflwyno'r cyfrifon yn adroddiad yr archwilwyr allanol. 3.8 <u>Eitem 9 – Rhestr ffioedd</u> Nododd yr Ysgrifennydd bod adolygiad o'r trefniadau ffioedd yn digwydd. Argymhellwyd y dylid trafod y mater yn y Pwyllgor Penodiadau.	Penodi Cadeirydd i'r PAR Materion cyllid yn cael eu trosglwyddo i'r pwyllgor newydd Pwyllgor Penodiadau i drafod ffioedd	22 Tachwedd 2017 Ebrill 2018 Cyfarfod nesaf y Pwyllgor

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
4. Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Pwyllgor (Eitem 5) **Ar y pwynt hwn cyrhaeddodd William Callaway**	4.1 Derbyniwyd Cylch Gorchwyl diwygiedig, yng nghyd-destun adolygiad Llywodraethiant y Coleg. 4.2 Yn ystod y drafodaeth nodwyd y pwyntiau canlynol: • Diwygio'r paragraff cyntaf i gynnwys cyfeiriad at yr adolygiad llywodraethiant • A oedd angen pwyllgor buddsoddi hefyd? Mewn ymateb i hyn nodwyd y byddai'r Pwyllgor Cyllid, Adnoddau a Dibenion Cyffredinol yn cymryd rhai cyfrifoldebau. Yn sgil hynny argymhellwyd symud cyfrifoldebau 3.4 a 3.5 iddo. • Ychwanegu monitro archwilwyr mewnol ac allanol i'r cyfrifoldebau gan gynnwys ymgynghorwyr proffesiynol • Ychwanegu monitro tendrau unigol i'r cyfrifoldebau. Mewn ymateb i hyn nodwyd bod y Rheoliadau Ariannol yn cynnwys nifer o gyfrifoldebau a ddirprwyir i'r Prif Weithredwr. • Aelodaeth – Argymhellwyd nodi bod hyd at 3 o aelodau o'r Bwrdd a hyd at 3 aelod annibynnol • A fydd yswiriant yn rhan o gyfrifoldebau'r pwyllgor gan ei fod yn risg? • Ychwanegu cyfrifoldeb adolygu polisïau perthnasol e.e. polisi risg, chwythu'r chwiban a pholisi twyll. • Adolygu'r cylch gorchwyl yn flynyddol. 4.3 Bydd y pwyntiau a nodwyd yn cael eu hystyried wrth baratoi fersiwn diwygiedig o'r Cylch Gorchwyl.		
5. Y Gofrestr Risg (Strategol) ac Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar y Broses o Reoli Risg (Eitemau 6 ac 11)	5.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar y Gofrestr Risg (strategol). Eglurwyd bod y Gofrestr ar ffurf newydd ar gais y Pwyllgor Archwilio a Risg. 5.2 Nodwyd bod 4 risg newydd wedi'u hadnabod oherwydd y newid yn strwythur y Coleg (17/01-17/04).		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	5.3 Nodwyd bod newid yn sgôr 11/06 a 15/02 i isel. 5.4 Eglurodd y Prif Weithredwr y cyflwynir y Gofrestr Risg i bob cyfarfod o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr o hyn ymlaen. 5.5 Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan Carol Warburton ar adolygiad yr archwilwyr mewnol ar y broses o reoli risg a'r Gofrestr Risg. 5.6 Adroddwyd bod yr adroddiad yn cynnig sicrwydd cyffredinol a bod 7 argymhelliad o statws isel. 5.7 Yn dilyn y cyflwyniadau trafodwyd ffurf newydd y Gofrestr a'r argymhellion. 5.8 Yn ystod y drafodaeth nodwyd y risg bod y Coleg yn or-ddibynnol ar un ffynhonnell o gyllid. 5.9 Cytunwyd i fabwysiadu'r argymhellion ac adolygu'r Gofrestr Risg ymhellach gan leihau nifer y risgiau, crynhoi'r cynnwys, clystyru themâu, sgorio, nodi pwy sy'n gyfrifol am y risg, a chwant risg. 5.10 Cytunwyd ymhellach i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn amlinellu unrhyw newidiadau i'r Gofrestr ym mhob cyfarfod.	IM a DT i ddiwygio'r Gofrestr Risg DT i ysgrifennu adroddiad	22 Tachwedd 2017 a 13 Chwefror 2018 13 Chwefror 2018
6. Rhaglen waith yr Archwilwyr Mewnol	6.1 Cafwyd adroddiad llafar gan Carol Warburton ar raglen waith yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2017/18. 6.2 Bwriedir adolygu rheolaeth ariannol a rheolaeth gyllidol erbyn cyfarfod 13 Chwefror 2018 a Systemau Gwybodaeth erbyn 15 Mai 2018.	Adolygiadau gan yr Archwilwyr Mewnol – cyllid a chraidd a GG	Erbyn 13 Chwefror 2018 a 15 Mai 2018
7. Diweddariad ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn 2015/16 a 2016/17 (Eitem 11)	7.1 Cafwyd diweddariad ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Archwilwyr Allanol yn 2015/16 a 2016/17 gan y Cofrestrydd. 7.2 Nodwyd bod yr argymhellion wedi'u gweithredu'n llawn ac wedi'u hymgorffori i Gofrestr Risg (Gweithredol) y Coleg.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	7.3 Nodwyd y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn adroddiad yr Archwilwyr Mewnol yn y cyfarfod nesaf.	Adroddiad nesaf yr Archwilwyr Mewnol i gynnwys	13 Chwefror 2018
8. Polisi Buddsoddiadau (Eitem 7)	8.1 Amlinellwyd fframwaith polisi buddsoddiadau drafft gan y Cofrestrydd. 8.2 Trafodwyd pa agwedd sy'n addas i'r Coleg fel risg a thrafodwyd pa Reolwyr Cronfeydd Elusennol (gan ddilyn cyngor BUFDG, fel bo'n briodol) a fyddai'n addas i weithredu'r buddsoddiadau. 8.3 Yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at • glustnodi cronfeydd preifat, o gofio bod dyletswydd i deuluoedd penodol • polisi safonau moesol (SRI) a mabwysiadu safbwynt ynghylch e.e. arfau, alcohol a thybaco • llif arian; edrych ar ffyrdd anffurfiol o fuddsoddi a oedd yn llai o risg • cyfraddiad Banciau • lleoliad y buddsoddwyr yn y Deyrnas Unedig 8.4 Cytunwyd i gyflwyno'r papur i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar gyfer trafodaeth bellach gyda'r bwriad i awdurdodi'r swyddogion i weithredu ar yr argymhellion.		
9. Adroddiad yr Archwilwyr Allanol a Chyfrifon Blynyddol y Coleg 2016/17 (Eitem 8)	9.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Allanol ar gyfer 2016/17 gan Ian Clarke o'r Archwilwyr Allanol. 9.2 Nododd mai dyma gyfrifon cyntaf y Coleg o dan FRS102. Yn y drefn newydd cyflwynir darpariaeth pensiwn USS a chyflog gwyliau yn y fantolen. 9.3 Cyfeiriwyd at y gwarged llai a'r gwahaniaethau yn y gwariant. 9.4 Cafwyd cyflwyniad ar Gyfrifon Blynyddol y Coleg ar gyfer 2016/17 gan Ian Clarke.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	9.5 Nodwyd rhai newidiadau ac ychwanegiadau i'r testun er mwyn egluro'r cyd-destun diweddaraf ynghylch y polisi cronfeydd a risgiau. 9.6 Derbyniwyd y Cyfrifon i'w cyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 22 Tachwedd 2017 ar gyfer cymeradwyaeth. 9.7 Diolchwyd i'r Archwilwyr Allanol yn ffurfiol am eu gwaith.	DT i gyd-lynu'r diwygiadau	Tachwedd 2017
10. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 4 2016/17 (Eitem 9)	10.1 Cafwyd eglurhad ar Gyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer chwarter 4 2016/17, ar eu ffurf newydd, gan y Cofrestrydd. 10.2 Nodwyd yr amrywiadau sylweddol ac eglurwyd bod y gwariant yn gyson â'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2016/17. 10.3 Derbyniwyd y cyfrifon.		
11. Cynllun Pensiwn USS	11.1 Adroddodd y Cofrestrydd bod USS wedi cadarnhau'r sefyllfa mewn perthynas ag aelodaeth staff cyflogedig y Coleg o'r USS. Nid oes unrhyw oblygiadau yn y tymor byr petai'r Coleg yn derbyn mwy o gyfrifoldebau. **Ar y pwynt hwn ymadawodd Ian Clarke a Carol Warburton**		
12. Amserlen a phroses penodi Archwilwyr Allanol ac Archwilwyr Mewnol y Coleg (Eitem 12)	12.1 Cyflwynodd y Cofrestrydd amserlen penodi Archwilwyr Allanol a Mewnol y Coleg. 12.2 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar yr amserlen penodi ganlynol: • Manyleb i'w gyhoeddi cyn y Nadolig, ac archwilwyr i'w penodi erbyn y cyfarfod nesaf ar 13 Chwefror 2018. • Penodi Archwilwyr Mewnol am dair blynedd tan fis Mawrth 2021. • Penodi Archwilwyr Allanol am bedair blynedd tan	CR i drefnu proses caffael	Erbyn Rhagfyr 2017

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	fis Mawrth 2022. 12.3 Argymhellwyd y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac un aelod arall fod yn rhan o ddewis y tendr.	Cadeirydd PAR +1 yn rhan o'r broses	Ionawr 2018
13. UFA	13.1 Diolchwyd i'r Dr Haydn Edwards am gadeirio'r pwyllgor dros dro.		
14. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	14.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf yng Nghaerdydd: • 13 Chwefror 2018, 10.00-12.30 • 15 Mai 2018, 10.00-12.30 12.2 Diolchwyd i Osian Rhys am gyfieithu ar y pryd.		